**Ymateb Llais i'r Ymgynghoriad ar God Ymarfer 2025**

Mae Llais yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Ein rôl yw rhoi llais cryf i bobl yng Nghymru wrth lunio eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gofynnodd ymgynghoriad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sefydliadau am adborth ar newidiadau i'r cod ymarfer yn dilyn penderfyniad gan y Goruchaf Lys <https://www.equalityhumanrights.com/cy/datganiad-ehrc-ar-ddyfarniad-y-goruchaf-lys-yn-women-scotland-v-gweinidogion-yr-alban> a eglurwyd diffiniadau o ryw gyfreithiol mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau pwysig ar gyfer sut mae sefydliadau'n diffinio ac yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â rhyw a hunaniaeth rhywedd.

**Roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn galw am y canlynol:**

- **Eglurder ar ddiffiniadau:**
  Cytunom fod y diffiniad cyfreithiol diweddaraf o ryw, yn seiliedig ar ryw fiolegol adeg geni, yn glir ond fe wnaethom amlygu ein pryderon nad yw o bosibl yn cynnwys unigolion rhyngrywiol yn briodol. Gallai hyn arwain at eu gadael allan wrth feddwl am newidiadau oherwydd y cod ymarfer diweddaraf.

- **Effeithiau ar bobl a gwasanaethau:**
  Fe wnaethom egluro pwysigrwydd diweddaru hyfforddiant, canllawiau a pholisïau o fewn sefydliadau, gan sicrhau bod staff yn deall y gwahaniaethau rhwng rhyw fiolegol a hunaniaeth rhywedd er mwyn atal gwahaniaethu neu fod pobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Rhyw fiolegol yw label a roddir i rywun ar enedigaeth yn seiliedig ar bethau fel eu hormonau, eu horganau cenhedlu a'u cromosomau. Hunaniaeth rhywedd yw sut mae

rhywun yn gweld ei hun ar y tu mewn yn hytrach na sut olwg sydd ar ei gorff. Gall rhywun uniaethu fel benywaidd, gwrywaidd, an-neuaidd, neu gydag ystod o hunaniaethau gwahanol.

- **Cynhwysiant i unigolion traws a di-ddeuaidd:**
  Gofynnwyd am ganllawiau ychwanegol, yn enwedig ynghylch rhieni traws a di-ddeuaidd sy'n bwydo ar y fron, a chyngor cliriach ynghylch beth allai'r newidiadau ei olygu iddynt o ran cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau.

- **Cyfleusterau a gwasanaethau un rhyw:**
  Gofynnwyd am fanylion pellach ynghylch sut y dylai sefydliadau reoli cyfleusterau a gwasanaethau un rhyw, gan bwysleisio na ddylai unrhyw newidiadau drin pobl anabl, draws, anneuaidd, neu bobl sy'n ehangu rhywedd yn annheg heb fwriadu gwneud hynny.

- **Pryderon yn y gweithle a gofal cymdeithasol:**
  Nodwyd y gallai gofal iechyd a chymdeithasol wynebu heriau o ran diwallu anghenion pobl yn ddiogel ac yn sensitif, gan dynnu sylw'n benodol at bryderon ynghylch urddas a thraws ffobia o fewn lleoliadau gofal iechyd.

- **Adrodd a chynrychiolaeth:**
  Bydd newidiadau yn y diffiniad o ryw yn effeithio ar bolisïau gweithredu cadarnhaol. Bydd hefyd yn effeithio ar adrodd ar gyflogau rhywedd oherwydd bod adrodd yn seiliedig ar ryw fiolegol. Mae hyn yn golygu nad yw data bob amser yn rhoi darlun clir o weithwyr sefydliad neu brofiadau byw. Pwysleisiom yr angen am arferion cynhwysol i gefnogi gweithwyr trawsrywiol a gweithwyr amrywiol o ran rhywedd yn y gweithle.

- **Angen arweiniad pellach:**
  Fe wnaethon ni alw ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddarparu canllawiau ac enghreifftiau cliriach i sicrhau cydymffurfiaeth a sensitifrwydd, yn enwedig o ran sut mae rhyw rywun yn cael ei weld neu ei ddeall, ailbennu rhywedd, a sut mae'n

rhaid i sefydliadau ystyried y gallai pobl gael eu trin yn annheg oherwydd gwahanol rannau o bwy ydynt e.e., ethnigrwydd, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd. Gofynnom hefyd am wybodaeth gliriach ar sut mae'r canllawiau hyn yn cysylltu â chyfreithiau eraill.

**Beth fydd Llais yn ei wneud nesaf:**

- Diweddaru ein hyfforddiant a'n polisïau mewnol i adlewyrchu'r diffiniadau newydd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn deg.

- Ceisio rhagor o arweiniad i sicrhau nad yw pobl yn cael eu trin yn annheg a bod pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch.

- Parhau i edrych ar yr hyn a wnawn a gwneud newidiadau yn seiliedig ar unrhyw gyngor ac adborth newydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau triniaeth deg, barchus a chynhwysol i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gwyddom y gallai pobl fod yn poeni am yr effaith y gallai'r newidiadau i'r cod ymarfer ei chael arnyn nhw a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Dyma rai sefydliadau a all gynnig cefnogaeth i chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod.

Mermaids

Mind Cymru - mental health support for Wales

Trans Aid Cymru – A mutual aid, helping trans, non-binary and intersex people across Wales

Umbrella Cymru – Gender and Sexual Diversity Support Specialists in Wales

30 Mehefin 2025